

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

24 Ebrill 2023

SL(6)343 – Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Awdurdodiadau ac Addasiadau i Awdurdodiadau) (Cymru) 2023

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn awdurdodi rhoi ar y farchnad, yng Nghymru, gynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig penodedig at ddibenion Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn addasu manylion deiliaid yr awdurdodiad ar gyfer nifer o awdurdodiadau presennol.

Ers 1 Ionawr 2021, mae Prydain Fawr wedi bod yn gyfrifol am asesiadau risg ac awdurdodiadau cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Yng Nghymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n gyfrifol am asesu risg cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Fel yr 'awdurdod priodol', mae Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau ar awdurdodiadau mewn perthynas â Chymru. Mae awdurdodiadau yn ddilys am ddeng mlynedd a chaiff deiliaid awdurdodiad wneud cais i adnewyddu'r awdurdodiad ar gyfer marchnata parhaus.

Mae'r wyth cais Organeddau a Addaswyd yn Enetig yn cynnwys chwe chais newydd a dau gais adnewyddu. Mae Organeddau a Addaswyd yn Enetig wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio yn yr UE. Mae deddfwriaeth gyfatebol wedi'i llunio yn Lloegr a'r Alban a bydd y rheoliadau ar draws Prydain Fawr yn dod i rym ar 26 Ebrill 2023.

Rhiant-Ddeddf: Rhiant-Ddeddf: Erthyglau 7(3), 19(3) a 35(3)(b) o Reoliad (EC) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig

Fe'u gwnaed ar: 28 Mawrth 2023

Fe'u gosodwyd ar: 29 Mawrth 2023

Yn dod i rym ar: 26 Ebrill 2023

